
Teithiau teulu gyda gwahaniaeth...

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Saundersfoot, Sir Benfro

*"Mae'r rhan arbennig hon o Lwybr Arfordir Cymru llawn hanes. Byddwch yn cerdded ar hen lein reilffordd drwy dwneli bychain."*

**THERESA NOLAN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

## Dechrau/Diwedd:

Maes parcio harbwr Saundersfoot / Wiseman's Bridge.

## Pellter:

2km / 1 milltir.
Taith gerdded estynedig: O Wiseman's Bridge i Amroth yn 1 km / 0.75 filltir

## Gwybodaeth:

Lein reilffordd, grym ceffyl yn wreiddiol, oedd yma, felly nid oes graddiant amlwg ac mae'n addas ar gyfer pramiau. Mae'r darn o Coppit Hall i Wiseman's Bridge, pentrefyn bach â thraeth creigiog, yn darparu golygfeydd di-dor dros Fae Saundersfoot. Beth am ddechrau trwy brofi Realiti Estynedig gan ddefnyddio'ch dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled) gyda phanel Llwybr Arfordir Cymru sydd yn y maes parcio o flaen strwythur melyn Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Ewch i'r gogledd tuag at Wiseman's Bridge, pentrefyn arfordirol lle mae cyfleusterau ar gael a bws gwasanaeth rhif 381 nôl i Saundersfoot pe byddech ei angen. Os hoffech fynd yn bellach, gallech barhau i Amroth, pentref glan môr.

Neu gallech ymestyn eich taith mewn cyfeiriad arall trwy ymweld â Gweithfeydd Haearn Stepaside, taith wastad a byr (4km / 2 filltir) sy'n addas ar gyfer pob oed.

## Ar y ffordd...

Arhoswch i drochi'ch traed neu nofio tra'n mwynhau'r golygfeydd ar draws harbwr Saundersfoot.

## Cynlluniwch eich ymweliad:

**WISEMAN'S BRIDGE:** visitpembrokeshire.com/explore-pembrokeshire/towns-and-villages/wisemans-bridge-and-stepaside
**GWEITHFEYDD HAEARN STEPASIDE:** pembrokeshire.gov.uk/walking-pembrokeshire/stepaside-ironworks-circular
**TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS:** traveline.cymru
**GWEFAN DWIRISTIAETH:** visitpembrokeshire.com

## Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig.

ANDROID APP ON Google play
Download on the App Store

